

Bwletin Drych Iechyd



Mwy o Gwestiynau am Homeopat heg



Oes mae mwy! Dyma gwestiynau yr ydych chi eu trafod yn aml ynglŷn â 'ngwaith.

'Sgen ti remydi at y peth-a'r-peth, 'sgen to giwar i'r salwch-a'r-salwch, 'sgen ti bilsen at y gair mawr Lladin yma? 'Rydych chi'n helpu pob mathau o bobl yn fy ngwaith. I mi, mae dod i 'nabod natur y person yn bwysicach na'r diagnosis moel. Helpu'r person ydych chi, nid ymladd salwch.

Ga' i ddefnyddio homeopat heg tra'n feichiog? Cei yn bendant. Gan nad ydych chi remediau yn achosi niwed i'r babi nac i'w organnau fel yr iau, mae merched beichiog yn aml yn troi at homeopat heg er mwyn dod at wraidd chwydu, cur pen, panig, ffeibroids, poen cefn, galar ac ati.

Felly mi fedra i ddefnyddio homeopat heg tra'n bwydo o'r fron hefyd? Heb os nac oni bai. Bydd profiad personol y fam o'r bwydo, a symptomau'r babi hefyd, yn dylanwadu'n gryf ar ba remydi fydd ei angen.

Oes raid osgoi pâst dannedd blas mint? Yn bersonol tydych chi i ddim yn credu fod mintys ysgafn yn amharu ar effeithlonrwydd remydi, er fod angen bod yn agored i bob posibilrwydd. Ond mae hi'n bwysig darllen rhestr cynhwysion pâst dannedd, a dewis drosom ein hunain os ydych chi pob un elfen – yn fint / fflwroid / SLS – yn bethau rydych chi ni'n bersonol yn dymuno'u cyflwyno yn y geg.

Ai rhywbeth i bobl gyfoethog yn unig ydi homeopat heg?

Mae homeopat heg ar gael i BAWB. Mae'r remediau eu hunain yn gymharol rad, ond mae angen hyfforddiant a sgîl er mwyn medru dewis y remydi sy'n gweddu i'r unigolyn. Rydych chi'n cynnig gostyngiad i unrhyw un sydd wirioneddol yn methu fforddio'r ffî lawn, ac yn agored i'r cynnig o or-daliad gan unrhyw un sy'n teimlo ar ei galon ei fod am hwyluso pethau yn ariannol i glaf mewn angen.

Ga' i ofyn i ti anfon remydi yn awtomatig bob mis? Nid yw hyn yn bosib. Fydd yr hyn oedd yn gweddu fis yn ôl ddim o reidrwydd yn dal yn addas heddiw. Mae homeopat heg yn rhywbeth cyfredol iawn, yn gweddu rŵan hyn. Mae'n feddyginiaeth ddeinamig a'r cynllun gorau ydi cadw cysylltiad / trefnu apwyntiad fel bo'r galw.

Oes modd cymryd remydi homeopathig a chyffuriau prif lif ar unwaith â'i gilydd? Mae hyn yn bosib ac yn addas mewn rhai achosion e.e. mae rhai cleifion yn dewis defnyddio homeopat heg i leddfu sgîl-ffeithiau cemotherapi neu i leddfu poenau triniaeth ddeintyddol.

'Dwi'n teimlo gymaint gwell. Ga i roi'r pillules sydd gen i ar ôl i fy chwaer / mab / cymydog? Wel rydych chi'n falch iawn o glywed am bob gwelliant, ond mae'r remydi gafodd ei ddewis mor ofalus drwy roi sylw mor fanwl i ti, yn anhebygol o weithio i'r person nesaf. Ceisia eu hannog i wneud apwyntiad ar eu cyfer eu hunain, ac egluro fod homeopat heg yn broses arbenigol sy'n dibynnu ar ddod i adnabod yr unigolyn.

Ga i gysylltu rhwng apwyntiadau?

Â chroeso – os bydd salwch aciwt yn codi (e.e. cystitis / llyfrithen / gwenwyn bwyd) rho alwad ffôn unrhyw bryd rhwng 10-6 Llun-Gwener.



MEDDWL CYN SIARAD ♥ DARLLEN CYN MEDDWL*

The Practical Handbook of Homeopathy: Colin Griffith (Watkins Publishing, 2012);

Homeopathy for Pregnancy, Birth and Your Baby's First Year:

Miranda Castro (Homeopathic Supply Company, 2005);


Rhymes for Remedies: Jackie Griffin Synnott (Self-published, 2014);

Get Well Soon: Misha Norland & School of Health (Yondercott Press, 2011).

*Fran Lebowitz - Social Studies

Asgwrn Cefn y Dull Homeopathig

Pedair egwyddor syml: dysga am y rhain ac mi ddaw defnyddio bocs bach o feddyginiaethau homeopathig yn hawdd. Rhaid i'r *pedair* rheol fod ar waith ar yr un pryd. Mae hyn yn wir i ti mewn sefyllfa aciwt yn y cartref, a gen innau wrth wneud presgripsiwn proffesiynol tymor hir.



Tebyg at ei Debyg – Dylai natur y remydi a natur y person fod yn debyg iawn i'w gilydd. Felly rhaid sylwi'n fanwl ar y claf a darllen y disgrifiad o'r remydi yn ofalus cyn dewis remydi.

Trin yr Unigolyn – Y person unigol sy'n bwysig yn hytrach nag enw'r salwch. Rhaid i ni sylwi ar y pethau sy'n gwneud y claf hwn yn wahanol i bob claf arall.


Darlun Crwn, Cyfan – Fedrwn ni ddim fforddio edrych ar un symptom yn unig: mae pob un cliw yn bwysig wrth ddewis remydi. Sylwa ar bopeth; o dymheredd y claf i'w syched, o lefel ei boen i'w gyflwr emosiynol.

Gorau po Leiaf - 30c ydi'r cryfder mwyaf cyffredin mewn bocsys cymorth cartref, a rhaid sylwi ar raddfa'r boen cyn penderfynu pa mor aml i roi'r remydi. Wrth i'r symptomau lacio bydd angen tynnu'n ôl i'w roi yn llai aml, ac yna stopio pan yn well.

Adnoddau i Ddechreuwyr



Homeopathy Taster Course – Ar gael o www.homeopathyschool.com gydag opsiwn o arweiniad unigol gan diwtor os dymunir.



Lluniau JPEG addas i'r ffôn gan Mette Mitchell - ar gael i'w llwytho o www.homeopathyly.com.



Bocs Remediâu 'Specifics for the Traveller' – ar gael drwy ffonio Helios ar +44 (0)1892 537254.

Mae pob un o erthyglau a blogiau Drych Iechyd wedi eu hysgrifennu er budd y rheiny sy'n dymuno dysgu am wir ystyr iechyd, yn awyddus i feddl yn eang ac yn barod i gymryd cyfrifoldeb am eu dewisiadau nhw eu hunain. Natur addysgiadol sydd i bob gwybodaeth a rennir ac ni ddylai ddisodli cyngor meddygol. Ni ellir addo cywirdeb na chyflawnder y cynnwys, na chwaith ei berthnasedd i unrhyw gyflwr neu amgylchiad personol. Os am roi unrhyw syniad neu egwyddor a ddisgrifir yma ar waith, chi sy'n cymryd cyfrifoldeb llawn am hynny. Mynnwch gyngor gan ymarferydd iechyd pan yn sâl.

AUDE SAPERE – MENTRA WYBOD – DARE TO GET IT

Elin Alaw – Homeopath Proffesiynol ac Ymarferydd G.A.P.S.
elinalawhomeopath@yahoo.co.uk / 07989 491 417 / www.elinalaw.com